

## Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

Annwyl Ymgynghorai

Sefydlwyd y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Un o'i brif gyfrifoldebau yw paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol drafft, ymgynghori ar y gorchmynion hynny a'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Fel Cadeirydd y Panel, rwy'n ysgrifennu atoch i gael eich barn am newidiadau sy'n cael eu cynnig gan y Panel i delerau ac amodau gweithwyr amaethyddol, i'w cynnwys yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2020. Cafodd y cynigion hyn eu gwneud yng nghyfarfod y Panel ar 2 Medi ac fe'u rhestrir isod:

Penderfynodd y Panel ar y cyfraddau a gynigir wedi ystyried yr ansicrwydd presennol yn y diwydiant amaeth a'r angen i sicrhau bod gweithwyr fferm yn cael cyflog teg.

### 1. Cyfraddau Tâl

Mae'r Panel yn cynnig y dylid cynyddu'r cyfraddau tâl isaf ar gyfer gweithwyr amaethyddol 1.8% ym mhob band fel a ganlyn:

	Y Gyfradd Bresennol £ yr awr	Cyfradd £ yr awr a gynigir
<b>Gradd 1 (o dan 16)</b>	£3.54	£3.60
<b>Gradd 1 (16-24 oed)</b>	£7.70	£7.84
<b>Gradd 1 (25+ oed)</b>	£8.21	£8.36
<b>Gradd 2</b>	£8.45	£8.60
<b>Gradd 3</b>	£8.70	£8.86
<b>Gradd 4</b>	£9.36	£9.53
<b>Gradd 5</b>	£9.88	£10.06
<b>Gradd 6</b>	£10.64	£10.83

Dylid codi cyfraddau prentisiaid fel a ganlyn:

	Y Gyfradd Bresennol £ yr awr	Cyfradd £ yr awr a gynigir
<b>Prentis blwyddyn 1</b>	£4.00	£4.07
<b>Prentis blwyddyn 2 (16-17 oed)</b>	£4.29	£4.37
<b>Prentis blwyddyn 2 (18+ oed)</b>	£6.15	£6.26
<b>Prentis blwyddyn 2 (21+ oed)</b>	£7.70	£7.79
<b>Prentis blwyddyn 2 (25+ oed)</b>	£8.21	£8.36

Gellir cynyddu'r cyfraddau hyn os bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi'n uwch na'r cyfraddau tâl isaf arfaethedig ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Lwfansau Eraill a Gynigir:

<b>Lwfans Cŵn</b>	£8.17	£8.32	Y Ci yr Wythnos
<b>Lwfans Gwaith Nos</b>	£1.55	£1.58	Yr awr ar gyfer gwaith nos
<b>Lwfans Genedigaeth / Mabwysiadu</b>	£64.29	£65.45	Y Plentyn

## 2. Newidiadau Arfaethedig Eraill

Cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ('y pwyllgor') broses graffu technegol o gyflogau 2019. Gwelwyd mân bwyntiau yn y gorchymyn oedd yn gofyn am eglurder:

### a) Lwfans Gwrthbwysu Llety

Teimlodd y pwyllgor fod amwysedd posibl yn Erthygl 15(1) a (2) o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2019 o ran cymhwyso'r Lwfans Gwrthbwysu Llety i gyflogau gweithwyr amaethyddol.

Cytunodd y Panel y dylid aileirio Erthygl 15 y Gorchymyn i osgoi unrhyw amwysedd a chadarnhau y dylid tynnu'r Lwfans Gwrthbwysu Llety bob wythnos o gyflog isaf gweithiwr amaethyddol os oes tŷ (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn) yn cael ei ddarparu ac y dylid tynnu swm yn ddyddiol o gyflog isaf gweithiwr amaethyddol bob diwrnod y darperir llety arall (fel y'i diffinnir gan y Gorchymyn) i'r gweithiwr amaethyddol.

### b) Tâl Salwch Amaethyddol

Mae Erthygl 21(2) yn nodi uchafswm nifer yr wythnosau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i dâl salwch amaethyddol ym mhob cyfnod hawl.

Nododd y pwyllgor bod canlyniad anfwriadol yn sgil geiriad presennol y Gorchymyn yn yr ystyr, lle bo gweithiwr amaethyddol wedi'i gyflogi am union 24, 36, 48 a 60 mis, gall fod ganddo'r hawl i lefel isaf ac uchaf yr hawl.

Er enghraifft, bydd gan weithiwr amaethyddol sydd wedi'i gyflogi am union 24 mis yr hawl i 13 o wythnosau o dâl salwch (am ei fod wedi'i gyflogi am ddim mwy na 24 mis) ac i 16 o wythnosau o dâl salwch (am ei fod wedi'i gyflogi am o leiaf 24 mis).

Mae'r Panel yn cynnig y newidiadau canlynol i Erthygl 21(2) o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2020 trwy fewnosod y canlynol:

*"Ym mhob cyfnod hawl, uchafswm nifer yr wythnosau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol ar eu cyfer yw:*

- 13 wythnos yn ail flwyddyn ei gyflogaeth;
- 16 wythnos yn nhrydedd flwyddyn ei gyflogaeth;
- 19 wythnos ym mhedwaredd flwyddyn ei gyflogaeth;
- 22 wythnos ym mhumed flwyddyn ei gyflogaeth;
- 26 wythnos yn chweched flwyddyn ei gyflogaeth a phob blwyddyn wedi hynny."

### c) Cyfrif yr Hawl i Wyliau a/neu Dâl i'r rheini sy'n Gweithio Oriau Amrywiol

Er mwyn gwneud yn siŵr fod y Gorchymyn yn cyd-fynd â'r newidiadau i ddeddfwriaeth a ddaw i rym ar 6 Ebrill 2020, mae'r Panel yn cynnig newid y ddarpariaeth yn Erthygl 34(4) i gynyddu'r cyfnod cyfeirio ar gyfer pennu tâl wythnosol cyfartalog at ddiben cyfrif tâl gwyliau o 12 wythnos i 15 wythnos. Hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng darpariaethau'r Gorchymyn, mae'r Panel yn cynnig y dylid newid hefyd y cyfnod cyfeirio ar gyfer pennu hawl gweithwyr amaethyddol sy'n gweithio oriau amrywiol o dan Erthygl 31(1) i wyliau, o 12 wythnos i 52 wythnos. Mae'r Panel felly yn cynnig y newid canlynol i eiriad yr Erthyglau: *"Erthygl 31(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar nifer amrywiol o ddiwrnodau bob wythnos, cymerir mai nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos at ddibenion y Tabl yn Atodlen 5, yw cyfartaledd nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos yn ystod cyfnod o **52 wythnos** yn union cyn i wyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol gychwyn a rhaid i'r nifer cyfartalog hwnnw o ddiwrnodau cymwys gael ei dalgrynnu i'r diwrnod cyfan agosaf, pan fo hynny'n briodol.*

*Erthygl 24(4) Pan fo oriau gwaith arferol y gweithiwr amaethyddol yn amrywio o wythnos i wythnos, neu pan fo gweithiwr amaethyddol sydd ag oriau gwaith arferol (fel ym mharagraff (3)) yn gweithio goramser yn ogystal â'r oriau hynny, cyfrifir swm tâl wythnosol arferol y gweithiwr amaethyddol at ddibenion paragraff (2) drwy adio swm tâl wythnosol arferol y gweithiwr amaethyddol ym mhob un o'r **52 wythnos** yn union cyn cychwyn gwyliau blynyddol y gweithiwr a rhannu'r cyfanswm â **52**.*

Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael eich sylwadau ar y cynigion hyn cyn **16 Hydref 2019** er mwyn i'r Panel gyflwyno ei gyngor i'r Gweinidogion yn unol â Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi. Os hoffech ymateb yn ddiennw, nodwch hynny gyda'ch ymateb. Diolch ichi ymlaen llaw am ymateb.

Ysgrifennwch at Reolwr y Panel yn y cyfeiriad isod, neu anfonwch e-bost at:

Ryan Davies  
Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Spa Road East  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5HA

[Ryan.Davies@llyw.cymru](mailto:Ryan.Davies@llyw.cymru)

Yn gywir

Lionel Walford  
Cadeirydd  
Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru